**CORFF ADNODDAU NATURIOL CYMRU**

**DEDDF ADNODDAU DŴR 1991**

# IS-DDEDDFAU GWIALEN A LLINYN AFONYDD TRAWSFFINIOL (EOGIAID A BRITHYLLOD Y MÔR) 2017

Mae Corff Adnoddau Naturiol Cymru, wrth arfer ei bwerau dan adran 210 a pharagraff 6 (1) (b), 6 (2) (b) a 6 (2) (d) o Atodlen 25 Deddf Adnoddau Dŵr 1991, yn gwneud yr is-ddeddfau canlynol.

**Is-ddeddf 1 – Teitl**

Gellir galw'r is-ddeddfau hyn yn Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn Afonydd Trawsffiniol (Eogiaid a Brithyllod y Môr) 2017.

**Is-ddeddf 2 – Defnydd**

Caiff yr is-ddeddfau hyn eu darllen ar y cyd ag Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn 1995, fel y'u diwygiwyd, ac Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn Afon Gwy (Eogiaid a Brithyllod Mudol) 2011.

Bydd yr is-ddeddfau hyn yn berthnasol i afonydd trawsffiniol ac eithrio lle y nodir hynny'n unswydd.

Bydd effaith yr is-ddeddfau hyn yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2027.

**Is-ddeddf 3 – Dehongliad**

Yn yr is-ddeddfau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu'n wahanol:

(a) ystyr "afonydd trawsffiniol" yw'r rhannau hynny o Afon Dyfrdwy ac Afon Gwy a'u hisafonydd yng Nghymru

(b) ystyr "Cyfoeth Naturiol Cymru" yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru

(c) "ystyr "eogiaid" yw eogiaid o'r rhywogaeth *Salmo salar* ac mae'n cynnwys rhan o eog

(d) ystyr "brithyllod y môr" yw unrhyw bysgodyn o deulu'r eog a adwaenir yn gyffredinol fel brithyll neu sewin, gan gynnwys brithyllod mudol, ac mae hefyd yn cynnwys rhan o frithyll

(e) ystyr "abwyd" yw mwydyn, corgimwch a berdysen, boed yn naturiol neu yn artiffisial

(f) ystyr "llith pysgota artiffisial" yw unrhyw ddyfais, gan gynnwys abwydau llwy, troellblu, siglwr a phlwg, neu abwydau pysgod ffug artiffisial wedi eu gwneud o unrhyw ddefnydd a gynlluniwyd i ddenu pysgod ac sy'n cynnwys bachyn pysgota

(g) ystyr "pryf artiffisial" yw pryf pysgota sydd wedi cael ei adeiladu'n bennaf o ddefnyddiau ffwr a phlu naturiol neu synthetig ac sydd wedi'i gynllunio i ddenu pysgod ac sy'n cynnwys bachyn pysgota

(e) Ac eithrio fel y darperir uchod neu lle mae'r cyd-destun yn mynnu'n wahanol, bydd yr holl eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn yr is-ddeddfau hyn yn cael eu diffinio gan yr ystyr a aseinir iddynt gan Ddeddf Eogiaid a Physgodfeydd Dŵr Croyw 1975, Deddf Adnoddau Dŵr 1991 a Deddf yr Amgylchedd 1995 neu unrhyw addasiadau neu ailgread statudol ohonynt.

**Is-ddeddf 4 – Dal a rhyddhau gyda gwialen a llinyn (eogiaid)**

Bydd unrhyw unigolyn sy'n tynnu unrhyw eog byw neu farw gyda gwialen a llinyn o Afon Dyfrdwy a'i hisafonydd yng Nghymru heb awdurdod ysgrifenedig ymlaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru a ganiateir dan baragraff 6 (5A) o Atodlen 25 Deddf Adnoddau Dŵr 1991 yn euog o drosedd.

Nid yw'r is-ddeddf hon yn berthnasol i unrhyw unigolyn sy'n cymryd eog yn gyfreithiol ac yn ei ddychwelyd i'r dŵr ar unwaith gyda'r anaf lleiaf posibl.

**Is-ddeddf 5 – Cyfyngiad maint (brithyllod y môr)**

Caiff y paragraff canlynol ei fewnosod ar ôl Is-ddeddf 7 o Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn 1995 (Cyfyngiadau Maint – Brithyllod (ac eithrio Brithyllod Seithliw)):

> "Bydd unrhyw unigolyn sy'n cymryd unrhyw frithyll y môr byw neu farw sydd o faint sy'n fwy na 60 centimetr gyda gwialen a llinyn o Afon Dyfrdwy a'i hisafonydd yng Nghymru yn euog o drosedd.
>
> Caiff y maint ei ganfod trwy fesur o flaen y trwyn i ddiwedd y gynffon.

Nid yw'r is-ddeddf hon yn berthnasol i unrhyw unigolyn sy'n cymryd unrhyw frithyll y môr byw neu farw o faint sydd yn fwy na 60 centimetr ac yn ei ddychwelyd i'r dŵr ar unwaith gyda'r anaf lleiaf posibl."

**Is-ddeddf 6 – Dim pysgota ag abwyd**

(1) Ar ôl paragraff (a) o Is-ddeddf 2 Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn 1995 (Dehongliad), caiff y canlynol ei fewnosod:

"(ab) ystyr 'afonydd trawsffiniol' yw'r rhannau hynny o Afon Dyfrdwy ac Afon Gwy a'u hisafonydd yng Nghymru."

(2) Ar ôl paragraff (a) (2) o Is-ddeddf 9 Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn 1995 (Defnyddio Llithiau ac Abwyd gyda Gwialen a Llinyn) (Eogiaid a Brithyllod y Môr), caiff y canlynol ei fewnosod:

"(2A) Ni fydd unrhyw unigolyn yn pysgota am, yn cymryd, neu'n ceisio pysgota am neu gymryd unrhyw eog o'r afonydd trawsffiniol gyda gwialen a llinyn trwy ddefnyddio unrhyw abwyd.

(2B) Ni fydd unrhyw unigolyn cyn 1 Mai yn pysgota am, yn cymryd, neu'n ceisio pysgota am neu gymryd unrhyw frithyll y môr o'r afonydd trawsffiniol gyda gwialen a llinyn trwy ddefnyddio unrhyw abwyd."

**Is-ddeddf 7 – Bachau**

Ar ôl paragraff (a) (1) o Is-ddeddf 10 Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn 1995 (Bachau a Bachu Pysgod) (Bachau heb adfach neu fachau lle y tynnwyd adfachau), caiff y canlynol ei fewnosod:

"(1A) Ni fydd unrhyw unigolyn yn pysgota am, yn cymryd, neu yn ceisio pysgota am neu gymryd unrhyw eog neu frithyll y môr o'r afonydd trawsffiniol gyda gwialen a llinyn ac eithrio gyda bachau heb adfachau neu lle y tynnwyd adfachau."

Ar ôl paragraff (aa) (1) o Is-ddeddf 10 Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn 1995 (Bachau a Bachu Pysgod) (bachau unigol), caiff y canlynol ei fewnosod:

"(2) Ni fydd unrhyw unigolyn yn pysgota am, yn cymryd, neu'n ceisio pysgota am neu

gymryd unrhyw frithyll y môr o'r afonydd trawsffiniol gyda gwialen a llinyn yn defnyddio unrhyw abwyd ac eithrio un mwydyn wedi ei roi ar fachyn unigol heb adfach neu lle y tynnwyd adfach a lle y rhoddir cyfyngiad o 8 milimetr neu lai ar agoriad bachyn o'r fath wedi ei fesur o'r goes i'r pwynt."

Ar ôl paragraff (c) (1) o Is-ddeddf 10 Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn 1995 (Bachau a Bachu Pysgod) (Bachau Triphlyg), caiff y canlynol ei fewnosod:

"(2) Ni fydd unrhyw unigolyn yn pysgota am, yn cymryd, neu yn ceisio pysgota am neu gymryd unrhyw eog neu frithyll y môr o'r afonydd trawsffiniol gyda gwialen a llinyn yn defnyddio abwyd neu lith pysgota artiffisial neu bryf artiffisial sydd ag un neu fwy o fachau triphlyg."

**Is-ddeddf 8 – Diddymu is-ddeddfau presennol**

(1) Bydd diddymiad is-ddeddfau presennol a amlinellir yn Atodlen 1 yn dod i rym.

## ATODLEN 1

Diddymu Is-ddeddfau Presennol

| Rhif yr is-ddeddf | Dyddiad cadarnhau |
|---|---|
| **Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn 1995**<br><br>(Defnyddio Llithiau ac Abwyd gyda Gwialen a Llinyn) (Eogiaid a Brithyllod y Môr)<br><br>Is-ddeddf 9 (a) (3) (ii) | Yn rhannol ar 29 Gorffennaf 1995 ac yn rhannol ar 1 Medi 1994 |

**FEL TYSTIOLAETH O HYN CAFODD SÊL GYFFREDIN CORFF ADNODDAU NATURIOL CYMRU ei hychwanegu yma ar y** 8fed **dydd o fis Tachwedd 2017**

S. Abbrey

**LLOFNODWR AWDURDODEDIG**

#0032D